Yr adolygiad annibynnol o Estyn yn rhoi gobaith Cipolwg ar Sir Gâr Cwrs Ymddygiad Cynhadledd Bolisi gyntaf NEU Cymru fis Hydref Dyddiadau hyfforddiant Atal a diogelu disgyblion

ATHRAWON CYMRU

**Rhifyn 60 Tymor yr Hydref 2018**

# Addysg ar yr agenda yn yr Urdd

DAETH cyfeillion hen a newydd ynghyd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar Faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd eleni.

Roedd gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol stondin yn y digwyddiad wythnos o hyd, sef yr ŵyl ieuenctid fwyaf yn Ewrop. Yno gyda'r Undeb roedd Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, prif elusen addysgol gwrth-hiliaeth y Deyrnas Unedig, a oedd yn rhoi bandiau arddwrn, sticeri a phosteri o dimau pêl-droed am ddim.

**Sêr ifanc y sioe**

Roedd dau atyniad o bwys ar y stondin eleni. Cynhaliwyd cystadleuaeth tynnu llun ddydd Llun, ddydd Mawrth a dydd Mercher, gan ddenu dros 100 o gynigion. Yr enillydd oedd Chloe Wright o Ysgol Bro Idris yn Nolgellau.

Y llall oedd cystadleuaeth rheoli pêl yn yr awyr, a honno wedi'i threfnu gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Yr enillydd oedd Harvey Morris, a lwyddodd i reoli'r bêl 86 gwaith, gan ennill pêl a lofnodwyd gan garfan Ewro 2016 Cymru.

Meddai Stuart Williams, Prif Swyddog NEU Cymru: "Gyda degau o filoedd yn bresennol, mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn gyfle da inni ymwneud â rhieni a phobl ifanc a chanfod yr hyn y mae addysg yn ei olygu iddyn nhw.

**Ein gwaith yn llywio dyfodol addysg**

"Roedd hyn yn arbennig o bwysig gan mai hon oedd ein blwyddyn gyntaf yn yr Eisteddfod ar ffurf yr Undeb Addysg Cenedlaethol newydd. Roedd modd inni drafod y manteision mawr a fydd yn deillio o'n gwaith i lywio dyfodol addysg yng Nghymru."

Mae mwy o wybodaeth am Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yng Nghymru ar gael yn theredcard.org/wales

Chloe Wright o Ysgol Bro Idris yn Nolgellau oedd prif enillydd y gystadleuaeth tynnu llun

Cai Jones a Glesni Jones yn paratoi i gyfarch ymwelwyr yn Eisteddfod yr Urdd

Harvey Morris, enillydd y gystadleuaeth cadw pêl yn yr awyr, gyda'i wobr

# Newyddion

## Cofrestrwch ar-lein i gael y wybodaeth ddiweddaraf am eich pensiwn

ERS bron i ddwy flynedd, nid yw Teachers Pensions wedi bod yn anfon datganiadau blynyddol i aelodau'r cynllun.

Gan hynny, mae'n bwysig iawn bod aelodau'n cofrestru ar wefan Teachers Pensions er mwyn cael y datganiadau diweddaraf a chael eu datganiad blynyddol yn electronig.

Mae'r broses gofrestru yn syml iawn. Ewch i teacherspensions.co.uk a chlicio ar 'Member Registration'. Er mwyn cwblhau'r broses, bydd angen eich cyfeirnod Teachers Pensions arnoch a bydd angen eich rhif Yswiriant Gwladol wrth law.

Cofiwch gadw eich slipiau cyflog misol, neu o leiaf eich P60, yn enwedig os ydych chi wedi trosglwyddo i'r cynllun Cyfartaledd Gyrfa. Gellir defnyddio'r rhain fel tystiolaeth o'ch cyflog blynyddol os bydd unrhyw anghysondeb yn eich buddion. Mae angen datrys unrhyw anghysondebau'n gyflym gan mai'r ffigurau hyn sy'n cael eu defnyddio i gyfrifo'r buddion o'ch pensiwn.

Ewch i **teachers.org.uk** a chlicio ar 'Pay, Pensions & Conditions'.

## Recriwtio athrawon sy'n fyfyrwyr mewn prifysgolion

BYDD NEU Cymru yn ymweld â holl brifysgolion Cymru y tymor hwn, er mwyn recriwtio athrawon sy'n fyfyrwyr i'r Undeb.

Bydd hefyd yn rhoi darlithoedd, gan gynnwys darlith am sut i fod yn ddiogel ar y cyfryngau cymdeithasol, i hyfforddeion.

Mae myfyrwyr yn y prifysgolion yr ymwelwyd â hwy hyd yma wedi codi a thrafod nifer o bynciau, a datganoli cyflogau ac amodau i Lywodraeth Cymru oedd y mwyaf poblogaidd.

Mae modd i fyfyrwyr ymaelodi am ddim, a gall athrawon newydd gymhwyso gael aelodaeth blwyddyn am ddim ond £1.

Ewch i **neu.org.uk/join/membership-rates**

# Dyddiadau i'ch dyddiadur

**HYFFORDDIANT I GYNRYCHIOLWYR**

Mae cyrsiau hyfforddiant un diwrnod a thri diwrnod yr Undeb i bob cynrychiolydd ysgol – yn newydd a hen – yn rhoi'r adnoddau a'r hyder iddyn nhw wneud gwir wahaniaeth i fywydau aelodau.

**Eich diogelu'ch hun a'ch aelodau yn yr ystafell ddosbarth**
21 Medi – Gwesty'r Bear, Y Bont-faen

**Sylfaen**
3-5 Hydref – Gwesty'r Bear, Y Bont-faen

**Sylfaen**
10-11 Hydref – Gwesty'r Village, Abertawe

**Cyfraith cyflogaeth**
27 Tachwedd – Swyddfa'r NEU, Caerdydd

**Os oes diddordeb gennych chi mewn bod yn gynrychiolydd ysgol a mynd ar un o'r cyrsiau uchod, anfonwch e-bost at lisa.williams@neu.org.uk**

**Mae gan gynrychiolwyr hawl gyfreithiol i fynd ar y cyrsiau hyn a bydd yr Undeb yn helpu unrhyw un sy'n cael problemau wrth geisio sicrhau amser i ffwrdd o'r gwaith i fod yn bresennol.**

**HYFFORDDIANT I ATHRAWON**

**Canolraddol rhan 1 Cymraeg**
22-23 Medi – Future Inn, Caerdydd

**Canolraddol rhan 2 Cymraeg**
1-2 Rhagfyr – Future Inn, Caerdydd

**Canolraddol rhan 3 Cymraeg**
26-27 Ionawr, 2019 – Future Inn, Caerdydd

- Mae sesiynau blasu ar **ymwybyddiaeth ofalgar** yn cael eu trefnu yn nhymor yr hydref yng Nghaerfyrddin, Caerffili a Chaerdydd.
- I helpu aelodau ddatblygu eu **cymhwysedd digidol**, bydd gweithdai penwythnos yn cael eu trefnu yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn.

**HYFFORDDIANT I ATHRAWON CYFLENWI**

**Cymorth cyntaf yn y gwaith**
30 Hydref – 1 Tachwedd – Future Inn, Caerdydd

- Bydd nifer o gyrsiau ar-lein achrededig hefyd ar gael i aelodau sy'n athrawon cyflenwi, gan gynnwys **hylendid bwyd** ac **iechyd a diogelwch yn y gwaith**.

**Os hoffech chi fynd ar unrhyw un o'r cyrsiau uchod, anfonwch e-bost at beth.roberts@neu.org.uk**

**Cadwch olwg ar eich e-bost i weld gwybodaeth am y cyfleoedd hyfforddiant diweddaraf. Hoffwch ni ar Facebook yn facebook.com/neucymrutraining, dilynwch ni ar Twitter drwy @neucymrutrain ac ewch i teachers.org.uk/learning**

# Atal disgybl: y sefyllfa gyfreithiol

DYLAI cyflogwr da roi hyfforddiant i staff ynghylch atal a diogelu. Ond mae'r Undeb yn ymwybodol nad yw nifer yn gwneud hyn.

O ganlyniad, mae sawl un mewn sefyllfa lle bydd angen iddyn nhw ymyrryd ac atal disgybl ond na fyddan nhw'n gyfarwydd â'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer atal disgyblion yn gyfreithlon, neu efallai na fyddan nhw'n hyderus bod ganddyn nhw'r sgiliau i wneud hyn yn iawn.

Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn rhoi canllawiau i athrawon a bydd yr Undeb yn parhau i gefnogi aelodau sy'n wynebu'r sefyllfaoedd anodd hyn.

Ein cyngor ni yw y dylech alw am hyfforddiant ar atal a mynd i'r hyfforddiant hwnnw, gan ymgyfarwyddo â pholisïau eich ysgol a gwybod ble i gael cymorth.

# Croeso gwresog i adolygiad yr Athro o Estyn

MAE NEU Cymru wedi croesawu cyhoeddi adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson o Estyn, arolygiaeth ysgolion Cymru.

Bydd ei argymhellion, o'u derbyn a'u gweithredu, yn arwain at newid pellgyrhaeddol yn y trefniadau i arolygu ysgolion yng Nghymru, a bydd y proffesiwn yn croesawu'r rhain wrth ddygymod â'r diwygiadau uchelgeisiol i'r byd addysg sydd eisoes ar y gweill.

Yn benodol, mae'r Undeb yn nodi'r pryderon am y camau atebolrwydd gyda llawer yn y fantol. Camau yw'r rhain sydd wedi rhoi ysgolion o dan bwysau sylweddol ers cael eu cyflwyno yn 2011.

Un o'r argymhellion sydd i'w croesawu yw'r cynnig i roi moratoriwm ar arolygu ffurfiol wrth i arolygwyr, ysgolion a rhanddeiliaid pwysig eraill ddysgu am y cwricwlwm newydd, ei ddatblygu a'i roi ar waith.

> **"Rydym yn croesawu'r effaith gadarnhaol y gallai'r argymhellion ei chael ar ein system addysg"**
>
> David Evans, Ysgrifennydd Cymru

Bu'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn galw ers tro am hyn. Mae'r Undeb wastad wedi bod yn awyddus i'r cwricwlwm newydd lwyddo, ac roedd yn hollbwysig bod ymarferwyr yn cael pob cymorth i gyflawni'r nod hwnnw.

"Fe all arolygiadau fod yn gyfnod anodd i weithwyr addysg proffesiynol," meddai David Evans, Ysgrifennydd Cymru. "Rydym yn croesawu'r cyhoeddiadau hyn a'r effaith gadarnhaol bosibl y gallai'r argymhellion ei chael ar ein system addysg. Rydym wedi galw ers tro am hunanwerthuso yn y sector ysgolion yng Nghymru, a gallai argymhellion yr Athro Donaldson helpu yn hyn o beth.

"Rydym yn edrych ymlaen at weithio gydag Estyn a Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r argymhellion hyn."

## Cipolwg ar... Sir Gâr

MAE Adran Sir Gâr wedi gweld cynnydd mawr yn ei haelodaeth ers creu'r NEU.

Cymerodd Jason Dickinson a Tina Bowen, cyd-ysgrifenyddion yr adran, yr awenau ym mis Mehefin 2014, gan etifeddu adran gref a gweithgar yr oedd June Jenkins wedi'i harwain am nifer o flynyddoedd.

**Cydbwysedd rhwng y difrif a'r cymdeithasol**

Mae'r adran yn cyfarfod bob tymor ond mae'n cynnal cyfarfodydd ychwanegol os bydd angen. Mae'r digwyddiadau'n cael eu trefnu ledled Sir Gâr er mwyn rhoi cyfle i bob aelod fod yn bresennol. Maen nhw'n denu llawer o aelodau ac yn ddifyr, gyda chydbwysedd iawn rhwng y difrif a'r cymdeithasol.

Mae aelodau newydd yn mynychu'n rheolaidd ac yn dod yn gynrychiolwyr gweithgar. Ac mae aelodau o adrannau cyfagos yn aml yn bresennol er mwyn rhannu profiadau a thrafod materion cyffredin.

**Jason Dickinson, Emyr Brown a Kate James a'u stondin stryd ar gyllid ysgolion**

Ers creu'r Undeb newydd, bu cynnydd mawr yn nifer y cynrychiolwyr ysgolion sy'n mynd ar y cwrs sylfaen i gynrychiolwyr. Mae hyn wedi helpu i gryfhau'r adran.

Bu heriau yn y sir hefyd, yn bennaf cyllid ysgolion a'r bygythiad cysylltiedig o ddiswyddiadau. Mae'r adran wedi bod yn weithgar iawn wrth frwydro yn erbyn y toriadau hyn drwy lobïo Aelodau Cynulliad ac yng nghyfarfodydd y cyngor sir, drwy ysgrifennu at y wasg leol, a thrwy drefnu stondinau stryd a chyfarfodydd cyhoeddus sy'n dangos effaith y toriadau ar ddyfodol plant.

"Mae gwneud y swydd wedi bod yn her sylweddol ond mae wedi rhoi llawer o foddhad i mi," meddai Jason Dickinson wrth Athrawon yng Nghymru.

"Mae gennym dîm craidd gwych ac rydym yn ymfalchïo yn y cymorth y gallwn ei gynnig i aelodau. Mae'n braf iawn gweld mwy o bobl yn bod yn weithgar.

"Rydyn ni mewn sefyllfa iach iawn er mwyn brwydro dros ein haelodau yn y flwyddyn ysgol nesaf."

**Cryfder mewn niferoedd – felly ymunwch**

Er bod llawer o bobl yn mynychu'r cyfarfodydd, mae Jason yn awyddus i sicrhau bod cynifer o aelodau â phosibl yn cyfrannu.

"Er ein bod mewn sefyllfa gref, fe allwn gryfhau eto o gael rhagor o aelodau yn cyfrannu, a'r rheini wedi'u hyfforddi ac yn barod i herio baich gwaith dianghenraid a thriniaeth annheg," meddai.

I gyfrannu, anfonwch e-bost at **jason.dickinson@neu.org.uk**

## Heulwen haf yn yr Eisteddfod

ROEDD stondin yr NEU yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd eleni yn fwrlwm o weithgarwch, a chroesawyd nifer o westeion ac aelodau'r NEU i'r babell.

Un o'r gwesteion niferus a ddaeth heibio oedd Jo Stevens, Aelod Seneddol Llafur dros Ganol Caerdydd (yn y llun gyda Stuart Williams). Addawodd gefnogi ymgyrch barhaus NEU Cymru ynghylch datganoli cyflogau ac amodau i Gymru.

Cefnogodd hi alwad yr Undeb i sicrhau bod Prif Weinidog Cymru yn glynu wrth ei addewid na fyddai athrawon Cymru ar unrhyw gyfrif yn cael cyflog is nag athrawon yn Lloegr.

# Yma i helpu

FEL yr undeb athrawon mwyaf, mae modd i NEU Cymru (Adran NUT) roi gwasanaeth heb ei ail i'w aelodau.

Mae ein tîm proffesiynol yma i roi arbenigedd i'n rhwydwaith o gynrychiolwyr mewn ysgolion a cholegau ac i ysgrifenyddion cymdeithasau ac adrannau lleol.

Os oes gennych chi broblem yn y gwaith neu i gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau i aelodau, cysylltwch â'r canlynol:

- eich cynrychiolydd yn yr ysgol neu'r coleg;
- ysgrifennydd eich cymdeithas neu'ch adran;
- Swyddfa NEU Cymru (Adran NUT).

## NEU CYMRU (Adran NUT)

**Ty Sinnott, 18 Neptune Court,**
Vanguard Way, Caerdydd CF24 5PJ

**Ffôn:** 029 2049 1818

**Ffacs:** 029 2049 2491

**E-bost:** cymru.wales@neu.org.uk

**Ysgrifennydd Cymru:** David Evans

**Swyddogion Cymru:** Gareth Lloyd, Debbie Scott, Dilwyn Griffiths

**Prif Swyddog – Trefnu a Chyfathrebu:** Stuart Williams

**Trefnydd y Gogledd:** Cai Jones

**Cyfreithiwr Cymru:** Angharad Booker

**Aelodau Gweithredol:** Neil Foden, Angela Jardine, Beth Davies

## PRIF SWYDDFA

**Yr Undeb Addysg Cenedlaethol: Adran yr NUT**, Hamilton House, Mabledon Place, Llundain WC1H 9BD

**Ffôn:** 020 7388 6191

**Ffacs:** 020 7387 8458

**Gwefan:** www.neu.org.uk

**Llywydd:** Kiri Tunks

**Cyd-ysgrifennydd Cyffredinol:** Kevin Courtney

# Gosod yr agenda i Gymru

BYDD y materion pwysig sy'n effeithio ar addysg a gweithwyr addysg yn cael eu trafod yng Nghynhadledd Bolisi gyntaf yr Undeb Addysg Cenedlaethol yng Nghymru.

Mae'r digwyddiad i'w gynnal ar 20 a 21 Hydref, yn y Celtic Manor yng Nghasnewydd, a bydd yn gyfle i aelodau osod yr agenda ar gyfer gwaith yr Undeb dros y flwyddyn sydd i ddod.

Bydd dros 100 o gynrychiolwyr yn bresennol o bob awdurdod lleol yng Nghymru. Yn ystod sesiwn dydd Sadwrn, bydd Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, yn annerch y cynrychiolwyr, gan eu diweddaru am ei gweledigaeth ar gyfer y sector yn ogystal â chlywed eu sylwadau am yr heriau y maen nhw'n eu hwynebu.

Mae cynigion allweddol yn cynnwys cynigion ynghylch rôl y consortia addysg rhanbarthol, gweithredu'r cwricwlwm newydd, baich gwaith, cyflogau ac amodau, tlodi plant, ysgolion 3-19, athrawon cyflenwi a chyllido.

Kirsty Williams a David Evans

Dywedodd David Evans, Ysgrifennydd Cymru: "Mae hyn yn gyffrous iawn i'r Undeb yng Nghymru. Bydd cynhadledd sy'n galluogi aelodau Cymru i greu polisi ar faterion datganoledig yn helpu i sicrhau bod arbenigedd a phrofiad aelodau yn ganolog i'n hagenda.

# Adolygiad gwych i gwrs ymddygiad

**AR ôl deuddydd yn hyfforddi ar gwrs ymddygiad yr Undeb yng Nghaerdydd, aeth Julia Brice gartref yn teimlo "ffydd, positifrwydd a chyffro" – ac yn awyddus i roi'r technegau newydd yr oedd hi wedi'u dysgu ar waith.**

Julia Brice, a aeth ar gwrs ymddygiad yr Undeb yng Nghaerdydd

"Yn ôl i'r ysgol a'i syrffed heddiw, neu dyna feddyliais i. Fodd bynnag, roedd pawb yn gofyn sut aeth y cwrs ac roeddwn i'n dyheu i rannu beth ddysgais i (sy'n annodweddiadol iawn ohonof!).

"Bob tro y gofynnai rhywun, byddwn yn sôn am y tri gŵŵgwych a gyflwynodd un o'r cyrsiau gorau imi fynd arno erioed.

"Roeddwn i'n gwenu'n ddi-baid wrth ailadrodd syniadau ac esbonio strategaethau, cyngor a thriciau.

"Ddiwedd y bore, fel sy'n digwydd yn aml, anfonwyd un o'n disgyblion mwyaf anfodlon i weithio gyda mi.

"Roedd y tân ynddo'n wenfflam. Sefydlogais fy hun, cymryd anadl ddofn, plygu i lefel y llygaid, gosod fy ffiniau a defnyddio "llawer iawn o ddŵr".

"Erbyn diwedd y sesiwn, roedd gen i wyth o frawddegau da wedi'u hysgrifennu'n daclus – lle cynt doedd dim ond tudalennau di-rif o sgribliadau a blerwch.

"Roedd y bachgen yn teimlo'n wych ac roedd hynny'n beth da i bawb.

"Rwy'n gwybod na fydd pethau wastad mor hawdd, ond heddiw, fe deimlwn fod gen i wialen hud, yn yr un ffordd ag y teimlai'n wych wrth ddod gartref ddoe yn llawn ffydd, positifrwydd a chyffro.

"Diolch i chi. Roeddwn i'n awyddus i fynegi fy ngwerthfawrogiad a rhoi gwybod i chi, hyd yn oed os na fyddaf i'n gwneud dim arall gyda'r deunydd arbennig a roesoch imi, heddiw gwenodd bachgen anhapus iawn o glust i glust a dweud: 'Rydw i'n eithaf clyfar, yn tydw i?'"

Julia Brice, a aeth ar gwrs ymddygiad yr Undeb yng Nghaerdydd

**"Roeddwn i'n awyddus i fynegi fy ngwerthfawrogiad. Heddiw, fe deimlwn fod gen i wialen hud"**